

PERTHYN

Hydref 2021

301



**Cerdded a Beicio a Rasio a Rhedeg
a Rhagor – tu mewn!**

Gair gan y Gweinidog



Llun: Amelia Davies

Fe ges achos yn ystod y dyddiau diwethaf i wrando ar un o ganeuon Rhydian Meilir, ‘Brenhines Aberdaron’. Nid dyma oedd y tro cyntaf, ond gan fod ffrind wedi cyfeirio ati mewn cyd-destun penodol, dyma fynd ati i wrando unwaith eto.

‘Fe gerddai lawr i’r pentre
Bob bore’n arian byw
I weld y byd a’i bethe lawr y rhiw
Lawr y rhiw
Pob un yn ei hadnabod
Roedd hi’n ddynes o mor glên
Mor barod ei chymwynas
boed i’r ifanc neu yr hen.’

Y frenhines dan sylw oedd y diweddar Cissie Morris, un o drigolion Aberdaron, y pentref hudolus hwnnw sy’n golygu cymaint i nifer ohonom sydd â’n gwreiddiau’n ddwfn yn y rhan arbennig yna o Wlad Llŷn. Gwraig ei milltir sgwâr a gwraig brofodd rhai o ergydion mawr bywyd. Collodd ei phriod, John Morris, Prifathro Ysgol Gynradd Aberdaron a hynny o ganlyniad i drychineb fawr ar un o draethau’r ardal. Trip ysgol ac un o’r plant yn mynd i drafferth yn y môr. Wrth geisio’i achub fe aeth John Morris i drafferth hefyd a boddwyd y ddau. Ac yna yn ystod ei blynnyddoedd olaf –

‘Colli mab, ac ŵyr mor greulon
Colli popeth yn ei sgîl.’

Fel llawer un arall, bu’n rhaid iddi ddysgu byw gyda’r colledion, ac i mi mae’r ddwy linell yma yn rhyw awgrymu’r modd y cyflawnodd hynny

‘Tu ôl drws coch Ty’r Ysgol
Fe guddiai boenau’r byd’

a

‘Ond roedd Duw yn cynnig gobaith
Yn y Capel bob dydd Sul.’

Mae’r cwpled cyntaf yn adlewyrchu natur ei chymeriad tawel a phreifat. Nid un i rannu’n agored ei chreithiau a’i doluriau oedd Mrs Morris ond yn hytrach, ‘Mor dawel a di-gŵyn’.

Yn nhawelwch ei chalon a'i meddyliau yr oedd hi'n ceisio gwneud synnwyr o'r cyfan. Mae yna bwyslais mawr ar rannu y dyddiau yma a da felly, y weithred o siarad a datgelu. O gadw pethau i ni'n hunain mae perygl y gall y cyfan ar adegau fynd yn ormod a ninnau o ganlyniad yn dioddef mewn gwahanol ffyrdd. Ac eto, mae yna rinwedd mewn cadw ambell i beth i ni'n hunain hefyd a chaniatau i'n natur a'n personoliaethau geisio gwneud synnwyr o'r hyn oll sy'n digwydd o'n hamgylch. Yno, fentra'i ddweud, y mae rhywun yn dod yn ymwybodol o Dduw a chlustfeinio ar eiriau ei gusur a'i arweiniad.

Ac yna'n ail, ei ffydd, 'Ond roedd Duw yn cynnig gobaith, Yn y Capel bob dydd Sul.' Heblaw ei bod yng nghylch cyfeillgarwch mam, yn y capel y dois i i'w hadnabod. Trwy gydol fy mlynnyddoedd fel lleigwr yn Llŷn, mi fyddai wastad yn yr oedfa ac ymhlith y llond dwrn yna oedd yn cadw fflam yr Efengyl i losgi yng Nghapel Deunant.

Fe ges alwad ffôn yn ystod y pythefnos diwethaf gan wraig yr wyf wedi dod i'w hadnabod yn ddiweddar. Er ei hoedran, mae'r meddwl yn chwim ac mae'n parhau i fynychu oedfa. Yng nghorff y sgwrs soniodd am yr ychydig oedd yn mynychu ei chapel ac felly'r penderfyniad i gau a pha mor anodd y bu'r penderfyniad hwnnw. Mae'r flwyddyn a hanner olaf wedi dwysau sefyllfa nifer o eglwysi'n gwlad a chanlyniad hyn i gyd sef amddifadu ardaloedd a bywydau o aelwydydd Cristnogol. Bellach gwelir achosion yn cau a phobl heb gyfranogi mewn unrhyw ffurf ar addoliad ers amser maith. I lawer un, mae'n sefyllfa ddi-bryder ond i eraill yn loes ac yn ofid ac felly i'r wraig honno ar y ffôn ychydig ddyddiau yn ôl. Colli aelwyd ysbrydol a cholli bendithion cymdeithas Gristnogol. Beth fydd ei hanes? Fy ngweddi ddidwyll yw y byddwn fel enwadau yn gwarchod yr unigolion yma trwy gynllunio gofalus ac yn dilyn o hynny y bydd ein dealltwriaeth o aelodaeth a'r eglwys leol yn gyfrwng cynhaliaeth a bywyd i bobl ffydd ac i gymdeithas heddiw.

Coffa da am Mrs Morris a phob Mrs Morris arall!

Eifion.

Newyddion

Cofion a dymuniadau gorau

Anfonwn ein cofion at John Evans, Megan Morris a Glesni Jones a fu yn yr ysbyty yn ystod yr haf ac at Walford Gealy sydd yn parhau yn Ysbyty Bronglais. Anfonwn ein cofion hefyd at y rhai a dderbyniodd lawdriniaeth ddydd yn ddiweddar.

Anfonwn ein cofion at bawb sy'n derbyn gofal yn eu cartrefi eu hunain ac mewn cartrefi gofal. Dymunwn yn dda i Celia Jones sydd wedi symud i Gartref Tregerddan. Cofiwn amdanoch i gyd yn ein gweddiau

Cydymdeimlwn yn ddwys â:

Cyril, Janet a Matthew Evans ar farwolaeth mam Cyril sef Mrs Mattie Evans a mam-gu i Matthew.

Mary Thomas a'r teulu ar farwolaeth ei phriod, Brian Thomas, tad Caryl a Nia a thad-cu Betsan ac Alaw.

Clifford Jones ar farwolaeth ei briod Sandra Jones. Cydymdeimlwn hefyd â mab Clifford a Sandra, sef Richard Jones.

Anne Davies a'r teulu ar farwolaeth ei phriod John Davies, tad Angharad a Rhodri a thad-cu Elliw a Brychan.

Sarah Down Roberts a Gwen ar farwolaeth cyfnither Sarah, Eleri Ebenezer.

Wyn a Megan Hughes, a'r teulu ar farwolaeth tad Wyn, sef Mr Philip Hughes - tad-cu Dylan a Gwydion a hen-dadcu i Ifan, Twm a Tomos.

Cynhyrchir rhifyn arbennig o Perthyn yn fuan yn crynhoi'r teymgedau i'r rhai a gollwyd dros yr haf.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Eirian a Menna Evans sydd wedi dathlu eu priodas aur yn ystod mis Awst

Dymuno'n dda

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r ieuenctid sydd yn dechrau pennod newydd yn eu bywyd mewn swydd newydd, coleg neu brifysgol. Pob bendith i chi i gyd.

Dymunwn yn dda i David a Shirley Harries yn eu cartref newydd yn ardal Felin-y-Môr gyda golygfeydd gwych o Fae Ceredigion.



Capel Ebeneser

Anfonwn ein cofion at ein aelodau a'n cyfeillion yn Ebeneser. Cofiwn yn arbennig am y rhai sydd mewn cartrefi preswyl neu yn derbyn gofal yn eu cartrefi.

Anfonwn ein cofion at Megan Morris a fu yn yr ysbyty.

Edrychwn ymlaen at gyfarfod i gyd-addoli unwaith eto ar brynhawn Sul.

Golygyddion y mis hwn yw Sharon Owen a Rocet Arwel Jones.
Cyfraniadau ar gyfer rhifyn TACHWEDD at Sharon
(sharonowen527@btinternet.com) neu Arwel (rocetarwel@yahoo.com)
erbyn dydd Gwener, 29 Hydref, os gwelwch yn dda.

Yr Ysgol Sul

I agor y tymor newydd ar Ddydd Sul Medi 12fed treuliodd bore hyfryd ym Mwlch Nant yr Arian a'r teuluoedd, y plant, ieuenctid a'r athrawon yn mwynhau cerdded, beicio a chymdeithasu yn yr awyr agored.

Y Sul canlynol aeth nifer dda o rieni, plant, ieuenctid, athrawon a chyfeillion i ymuno yn y Ras am Fywyd ar y prom. Roedd llawer iawn wedi rhedeg 3, 5 neu 10 cilomedr ac eraill ohonom wedi cerdded. Diolch i bawb am eu cyfraniadau tuag at yr elusen Cancer Research UK.

Ar Ddydd Sul Medi 26ain trefnwyd Crefftau'r Croeso yn y festri i blant dan 11 oed ac mewn lleoliad gwahanol i'r ieuenctid oed ysgol uwchradd. Bu cyfle i fwynhau crefftau a gweithgareddau ar y thema *Hadau a ffrwythau* ac i gyfrannu at ein gwasanaeth Diolchgarwch ar Hydref 3ydd. Bydd yr ieuenctid yn trafod eu cyfraniadau ar y thema Hadau Gobaith -sef thema diolchgarwch Cymorth Cristnogol.





Gwasanaeth Diolchgarwch

Bore Sul – Hydref 3ydd

Yn y capel ac ar Zoom

Am 10 o'r gloch

Thema: Hadau Gobaith

Bydd cyfraniadau yn ystod y mis at Apêl Diolchgarwch Cymorth Cristnogol -Hadau Gobaith

Bydd Rhidian yn ddiolchgar i dderbyn cyfraniadau Diolchgarwch at Gymorth Cristnogol drwy'r post, neu eu gadael mewn amlen yn y bocs yn y cyntedd pan mae gwasanaeth yng Nghapel y Morfa os gwelwch yn dda. Ni fydd amlenni Bara i'r byd eleni.

**Hadau dwyfol,
Hadau ffydd
Hadau cariad
garia'r dydd.**

Benthycwch berson ... am hanner awr!

Yn Nenmarc, mae yna lyfrgelloedd lle gallwch fenthyg person yn lle llyfr, i wrando ar stori ei bywyd am 30 munud. Y nod yw ymladd rhagfarnau. Mae gan bob person deitl - "di-waith", "ffoadur", "deu_begwn" "gweddw" a.y.b - ond trwy wrando ar eu stori, rydych chi'n sylweddoli cymaint na ddylech chi "farnu llyfr wrth ei glawr". Mae'r prosiect arloesol a gwyh hwn yn weithredol mewn mwy na 50 o wledydd. Fe'i gelwir yn "Y Llyfrgell Ddynol". Prosiect teilwng i bob festri ac eglwys? A syniad i'r Morlan efallai?

Diolch i Geraint Rees - oddi ar dudalen FB C21.

Colli yr Esgob Spong

Yr wythnos hon fe fuodd Yr Esgob John Shelby Spong farw yn 90oed. Pwy meddech chi? Nes innau erioed gyfarfod y dyn, ond fe newidiodd fy mywyd i.

Fe wnaeth Spong i mi feddwl, a rhoddodd wedd newydd i mi ar Iesu Grist. Rhoddodd yr atebion yr oeddwn i'n chwilio amdany'n nhw pan oedd diwinyddiaeth Ysgol Sul y 70au wedi hen fethu, a minnau wedi rhoi'r gorau i feddwl. Er bod y Morfa yn fywiog ac eangfrydig, doedd gen i fy hun mo'r arfau deallusol i gyfiawnhau fy aelodaeth o'r eglwys i mi fy hun heb sôn am fy ffrindiau yn y dafarn. Ond daeth Spong.

Proffwyd yn ei oes ei hun, ac fel dywedodd rhywun am y gwirionedd, fe'i dilornwyd, ac fe'i gwrthwynebwyd yn ffyrnig nes ei dderbyn yn ddigamsyniol.



Dyrchafwyd Spong er ei waethaf ei hun a heirarchiaeth ei eglwys, yn Esgob. Llwyddodd i gadw'r swydd honno er gwaethaf ei wrthwynebwyr, a'i defnyddio fel llwyfan i gyfathrebu ei neges i'r byd. Roedd yn ddiwinydd

praff a deallus ond yn gyfathrebwyr syml a grymus. I mi eglurodd ffeithiau syml ond chwyldroadol.

Ganwyd Cristnogaeth yn y Synagog ac fe'i magwyd yno am yn hir iawn. Iddew oedd Crist ac fe lapiwyd yr ysgrythurau Iddewig amdano. Wnaeth y Beibl ddim proffwydo dyfodiad Crist. Ysgrifemwyd hanes Crist gyda'r ysgrythurau Iddewig ar agor fel bod y stori honno'n cyflawni'r hyn a broffwydwyd ganddynt.

A'r frawddeg ysgytwol a gaed ganddo'n gyson oedd – **ac mae pob ysgolhaig Beiblaidd yn gwybod hyn.**

Os oedd pob BD oedd wedi pregethu i mi erioed yn gwybod hyn sut nad oeddwn i'n gwybod? Wrth gwrs byddai rhai yn gwad'r gwirioneddau hyn. Ond roedd llu o rai eraill yn cadw'n dawel; er mwyn cadw'r ddysgl eglwysig yn wastad, rhai yn ei sibrwd rhwng y llinellau fel bod y rhai oedd eisoes yn gwybod yn ei glywed. Ond doeddwn i ddim yn clywed nac yn deall. Roedd angen rhywun i sbelio fo allan i mi, fel maen nhw'n dweud. A Spong wnaeth hynny.

Ac unwaith mae rhywun wedi deall, ac wedi deall mai'r nod yw dehongli'r gwirioneddau mytholegol yn y stori yn hytrach na chwilio'n ofer am wirioneddau llythrennol – yna mae hanes bywyd a gwaith Crist yn agor o'r newydd ac mor berthnasol ac erioed yn yr 21G. Mae modd edrych ar y geni, y gwyrthiau a'r atgyfodiad a'u deall mewn cyd-destun ysgrythurol, diwinyddol, dilys, heb eu credu'n llythrennol. Roedd hyn yn gymaint o ryddhad i mi – yn llythrennol.

Credai Spong bod yr eglwys wedi ei chaethiwo i oes o'r blaen ac os oedd hi'n perthyn i oes arall roedd hi'n anorfod ei bod yn marw gyda'r bobl oedd yn cofio'r oes bell honno. A chynigiodd ffordd ymlaen.

Gwnaeth wahaniaeth ymarferol. Credai yn lle merched a phobl hoyw yn yr eglwys ac ordeiniodd ddegau o frodyr a chwiorydd yn offeiriaid yn ei enwad. Gwnaeth ei hun yn wyneb cyhoeddus i farn radical, anhoblogaidd. Daeth yn enw, yn arwr, yn gocyn hitio ac yn elyn i lawer. Ond defnyddiodd y sylw ac oes y teledu a'r we i daflu ei lais hyd yn oed ymhellach.

Ysgrifennodd dros ddwsin o gyfrolau ysgolheigaidd ond hygyrch. Dechreuais i gyda 'Why Christianity Must Change or Die'. Cystal lle a'r un!

Os ydych chi'n darllen ar-lein ewch I wrando arno yma <https://www.youtube.com/watch?v=JrNJR2bZNdA> ... a dilynwch eich trwynau trwy youtube a thrwy ei lyfrau fesul un. Diolch amdano.

RAJ

Cymdeithas y Morfa

Yn dilyn llwyddiant cyfarfodydd rhithiol y llynedd, bydd y Gymdeithas yn cyfarfod dros Zoom eto eleni am 7.00 o'r gloch. Mae croeso i unrhyw un ymuno, o glydwch eich cartrefi. Bydd y ddolen yn cael ei hanfon allan gan Eifion cyn y nosweithiau Llun perthnasol.

Yn y noson agoriadol, cafwyd sgwrs ddifyr ar hanes Cranogwen gan yr Athro Jane Aaron. Dyma'r cyfarfodydd o hyn tan y Nadolig:

11 Hydref - Yr Athro Emeritws Gareth Ffowc Roberts

25 Hydref - Diolchgarwch dan ofal y Parchg. Mark Ansell

8 Tachwedd - Ann Wynne Griffith

22 Tachwedd - Richard Crowe

6 Rhagfyr - Thema'r Nadolig o dan ofal y Parch. Lyn Lewis Dafis

Swyddogion 2021-2022

Cadeirydd - Gwerfyl Pierce Jones

Is-gadeirydd - Lona Jones

Ysgrifennydd - Menai Lloyd Williams

Is-ysgrifennydd - Hywel Lloyd

Trysorydd - Ifor Davies

Trefnydd Defosiwn - Huw Evans

Noder

Ni fydd tâl aelodaeth fel y cyfryw eleni eto ond gwerthfawrogi cyfraniadau at y costau.

Dylid anfon unrhyw gyfraniad at y Trysorydd, Ifor Davies.

Diwrnod Heddwch Rhyngwladol



Yn 1981, penderfynodd y Cenhedloedd Unedig enwi'r trydydd dydd Mawrth ym Medi yn Ddiwrnod Heddwch Rhyngwladol, a'r thema arbennig ar gyfer 2021 oedd 'Adfer yn well ar gyfer byd teg a chynaliadwy.'

Am y tro cyntaf erioed, cynhaliwyd seremoni Diwrnod Rhyngwladol Heddwch yn Aberystwyth ar yr 21^{ain} o Fedi. Cyngor Tref Aberystwyth drefnodd y digwyddiad yn dilyn derbyn cais gan rai unigolion yn y dref, a chwifwyd baner heddwch ar y prom. Daeth criw ynghyd yn ystod yr awr ginio ar y llecyn gwyrdd rhwng y castell a'r prom i geisio atgoffa pobl i feddwl am bwysigrwydd heddwch yn ein byd heddiw.

Cadeiriwyd y digwyddiad gan y Maer, y Cynghorydd Alun Williams, cafwyd darlleniadau o ambell gerdd a chlywyd geiriau Waldo Williams am bwysigrwydd adnabod a derbyn ein gilydd. Roedd Côr Gobaith hefyd yno'n canu.



Diolch i Gyngor Tref Aberystwyth am drefnu digwyddiad fel hwn i nodi'r diwrnod arbennig a gobeithio'n fawr y bydd modd sicrhau ei fod yn ddigwyddiad blynyddol.



Mae hwn yn berthnasol i bob mis, nid mis
Medi'n unig – felly dyma'i fenthylg gan Ferched
y Wawr – diolch!



MERCHED Y WAWR

SYNIADAU AM GAREDIGRWYDD YM MIS MEDI

Danfon cerdyn cyfarch
Rhannu patrwm gwau
Prynu eitem mewn siop elusen
Galwad ffôn i ffrind
Prynu tin o fwyd i'r banc bwyd
Canmol i bwrpas
Coginio cacen i rywun
Cynnig mynd â chi rhywun am dro
Gwirfoddoli i helpu mewn siop
Rhoi toriad o blanhigyn i ffrind
Gadael tusw o flodau
ar stepen drws
Ffonio hen ffrind ysgol
Danfon llun/ neges destun
at aelod arall
Danfon jôc at rywun
Danfon cerdd/ limerig at ffrind
Cyfrannu at elusen o'ch dewis
Rhannu eich hoff rysait
Gwneud 'brecwast'yn y gwely i
chi'ch hunan neu aelod o'r teulu
Plannu blodyn neu goeden
Gwenu ar ddieithryn
Codi tri darn o sbwriel
tra'n mynd am dro
Rhoi eich hen sbectol neu
hen ffôn i elusen

Ysgrifennu llythyr at hen
ffrind yn hel atgofion
Dysgu sgil newydd
Benthylg eich hoff lyfr i ffrind
Cerdded/ rhedeg 5 k dros elusen
Dechrau bob sgwrs yn Gymraeg
Cyfarch pobol gyda Shw mae?
Meddwl am dri pheth sydd yn
eich gwneud yn hapus
Tynnu llun/ ffoto a'i
rannu gydag eraill
Gwrandao ar hoff gerddoriaeth
Bwyta bwyd iach
Ysgrifennu llythyr/ nodyn
o ddiolch i rywun
Dysgu sut i gyfarch mewn
pum iaith wahanol
Gwirfoddoli mewn siop elusen
Helpu yn yr ardd
Casglu cynghorion (tips)
a'u rhannu
Ffonio rhywun sydd wedi
cael profedigaeth / anfon
cerdyn neu lythyr
Cwrdd â rhywun am banded
Sticeri codi calon o amgylch y tŷ
Cydgerdded gydag aelod arall

WWW.MERCHEDYWAWR.CYMRU
SWYDDFA@MERCHEDYWAWR.CYMRU
01970 611 661



Saeth-weddïau

Trown atat, O Dduw,
o ganol ein dyletswyddau i geisio dy wyneb.

Rhoddais i ni dy ddoniau bob bore o'r newydd
a'th ras i'n dilyn holl ddyddiau ein bywyd.

Rhoddais i ni oriau gwaith ac oriau hamdden
a chyfle ynddynt i ddatblygu'r doniau hymny a
blennaist ynom.

Rhoddais i ni gwmni a chymorth ein gilydd
a chyfle i gydweithio er lles ein cymdeithas ac er clod i ti.

Rhoddais i ni'r munudau hyn a chyfle ynddynt
i ystyried ystyr ein bywyd yng ngoleuni dy Air.


O'th ganfod di yn gyfaill a chydymaith,
gad i ni fyw i'th wasanaethu a chael llawenydd yn dy waith.

Amen


Elfed ap Nefydd Roberts allan o *Cymer fy munudau*, Gol. Aled Davies a
Trefor Lewis (Casgliad o weddïau gwreiddiol a luniwyd dros gyfnod o
50 mlynedd gan Elfed)

Rwy'n gweld Duw fel ffynhonnell bywyd sy'n ehangu fy ngallu i
fyw; i fyw i'r eithaf. Rwy'n gweld Duw fel ffynhonnell cariad sy'n fy
rhyddhau i garu y tu hwnt i unrhyw rwystr; i garu'n afrad. Rwy'n
gweld Duw fel Sylfaen Bod sy'n rhoi'r dewrder i mi i fod y cyfan a
alla'i fod. Trwy fyw i'r eithaf rwy'n gwneud y Duw sy'n fywyd yn
weladwy. Trwy garu'n afrad rwy'n gwneud y Duw sy'n gariad yn
weladwy. Trwy fod y cyfan a alla'i fod rwy'n gwneud y Duw sy'n
Sylfaen Bod yn weladwy.

Spong




Dwy gyfrol, dau funud i gofio ...



Casgliad cynhwysfawr o weddïau cwbl wreiddiol o waith Elfed ap Nefydd Roberts. Ceir yma gasgliad sylweddol o dros 400 o weddïau, a baratowyd ganddo dros gyfnod o hanner can mlynedd. £16.99

Casgliad cynhwysfawr o fyfyrnodau gwreiddiol o waith Elfed ap Nefydd Roberts yn cynnwys dros 150 o fyfyrnodau a baratowyd ganddo dros gyfnod o ddeng mlynedd ar hugain. £12.99



SULIAU HYDREF

3 Hydref - Eifion Roberts. Oedfa Ddiolchgarwch Deuluol - yn y capel ac ar Zoom

10 Hydref - Elen Wyn Worman - ar Zoom


17 Hydref - Eifion Roberts - yn y capel ac ar Zoom

24 Hydref - John Roberts - ar Zoom

31 Hydref - W Bryn Williams - ar Zoom

Yr holl oedfaon am 10 o'r gloch

Os hoffech fynychu'r oedfa yn y Morfa – rhowch wybod i Dai Alun ymlaen llaw ar 624160



COFIWCH ymweld â gwefan Capel y Morfa i gael y newyddion diweddaraf – ac mae croeso i chi gyfrannu!

www.capelymorfa.cymru

COFIWCH hefyd ddilyn cyfrif Trydar Capel y Morfa @capelymorfa, a chyfri Facebook